Kathryn Robson

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn Ymddiriedolwr?

Byddwn wrth fy modd pe bai chi'n pleidleisio drosof i fod yn Ymddiriedolwr gydag CGGC. Mae gweithio gydag CGGC yr holl flynyddoedd hyn ac eistedd ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector fel cynrychiolydd Addysg wedi rhoi pleser o'r mwyaf i mi.

Gyda phrofiad helaeth o newid sefydliadol a diwylliannol, mae gennyf yr hyder a'r gallu i ymhél yn effeithiol ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Rwy'n gwbl ymrwymedig i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac mae gennyf ganlyniadau y gellir eu dangos i gefnogi hyn. Gyda gwybodaeth a phrofiad cadarn o reoli adnoddau dynol, llywodraethu a rheoli timau amlswyddogaethol mawr, gallaf fwrw iddi ar unwaith. Mae fy ngwaith fel Prif Weithredwr Addysg Oedolion Cymru yn ymwneud â chyfleoedd a newid bywydau, ac rwy'n gwneud hyn drwy feithrin cydberthnasau positif a chyflwyno cynnig cwricwlwm cyfoethog ac amrywiol i gymunedau ar hyd a lled Cymru. Rwy'n gyfathrebwr effeithiol a chyda gwybodaeth gadarn am y dirwedd wleidyddol, ynghyd â phrofiad helaeth o weithio gyda Llywodraeth Cymru a llawer o bartneriaid ar draws y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Os caf fy mhenodi, byddaf yn dod ag egni ac ymrwymiad i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr er mwyn helpu i gyflawni cenhadaeth CGGC i fod yn gatalydd dros newid positif.